



HM Government

Y berthynas rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol

Crynodeb Gweithredol

Bydd y Deyrnas Unedig yn **gadael yr Undeb Ewropeaidd ar 29 Mawrth 2019** ac yn dechrau llunio llwybr newydd yn y byd.

Bydd y Llywodraeth wedi **cyflawni ar ganlyniad refferendwm 2016** – yr ymarferiad democrataidd mwyaf yn hanes y wlad. Bydd wedi cyrraedd carreg filltir bwysig o ran ei brif genhadaeth – adeiladu gwlad sy'n gweithio i bawb. Gwlad sy'n gryfach, yn decach, yn fwy unedig ac yn fwy eangfrydig.

Gweledigaeth fanwl

Er mwyn cyflawni'r genhadaeth honno, mae'r Llywodraeth yn cyflwyno cynnig manwl ar gyfer **Brexit sy'n egwyddorol ac yn ymarferol**.

Mae'r cynnig hwn yn **ategu'r weledigaeth a gyflwynodd y Prif Weinidog yn Lancaster House, yn Fflorens, yn Mansion House ac yn Munich**. Mae'n ymateb i gwestiynau a godwyd gan yr UE yn y cyfamser – yn egluro sut byddai'r berthynas yn gweithio, beth fyddai'r manteision i'r ddwy ochr, a pham y byddai'n parchu sofraniaeth y DU yn ogystal ag ymreolaeth yr UE.

Yn ganolog i hyn, mae pecyn sy'n sicrhau **cydbwysedd newydd a theg** o hawliau a rhwymedigaethau.

Un y mae'r Llywodraeth yn gobeithio fydd yn arwain at **aiddyblu'r ymdrech o ran y negodi**, wrth i'r DU a'r UE gydweithio i ddatblygu a chytuno ar y fframwaith ar gyfer y berthynas yn y dyfodol yr hydref hwn.

Brexit egwyddorol

Mae Brexit egwyddorol yn golygu **parchu canlyniad y refferendwm** a phenderfyniad trigolion y DU i adennill rheolaeth dros gyfreithiau, ffiniau ac arian y DU, a gwneud hynny mewn ffordd sy'n cefnogi amcanion ehangach y Llywodraeth ar draws pum prif faes bywyd cenedlaethol y DU.

Ar gyfer yr **economi**, datblygu perthynas economaidd eang a dwfn â'r UE. Perthynas sy'n hyrwyddo ffyniant yn y dyfodol yn unol â Strategaeth Ddiwydiannol fodern y DU ac yn amharu cyn lleied â phosibl ar fasnach rhwng y DU a'r UE, gan warchod swyddi a bywoliaeth pobl – a gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd masnachu ar draws y byd hefyd.

Ar gyfer **cymunedau**, rhoi sylw i'r pryderon penodol a fynegwyd yn y refferendwm drwy roi terfyn ar y rhyddid i symud a rhoi system newydd ar waith ar gyfer mewnfudo. Hefyd, cyflwyno polisiau annibynnol newydd i gefnogi cymunedau amaeth a physgota, defnyddio'r Gronfa Ffyniant a Rennir i ysgogi ton adfywio newydd yn nhrefi a dinasoedd y DU, a chadw dinasyddion yn ddiogel.

Ar gyfer yr **undeb**, bodloni ymrwymadau i Ogledd Iwerddon drwy warchod y broses heddwch ac osgoi ffin galed, diogelu uniondeb cyfansoddiadol ac economaidd y DU a datganoli pwerau priodol i Gaerdydd, Caeredin a Belfast – gan sicrhau bod y fargen yn darparu ar gyfer Tiriogaethau dibynnol ar y Goron, Gibraltar a Thiriogaethau Tramor eraill, gan nodi na fydd unrhyw newid i'w perthnasoedd hirsefydlog â'r DU.

Ar gyfer **democratiaeth**, gadael sefydliadau'r UE ac adennill sofraniaeth y DU, sicrhau mai'r bobl sy'n cael eu hethol sy'n pasio'r deddfau sy'n berthnasol i bobl a'u bod yn cael eu gorfodi gan lysoedd y DU, gydag atebolrwydd clir i bobl y DU.

Ar gyfer **safle'r DU yn y byd**, parhau i hyrwyddo arloesi a syniadau newydd, gan fynnu polisi tramor cwbl annibynnol, a gweithio ochr yn ochr â'r UE i hyrwyddo a gwarchod gwerthoedd Ewropeaidd a rennir, sef democratiaeth, bod yn agored a rhyddid.

Perthynas newydd

O dan arweiniad yr egwyddorion hyn, mae'r Llywodraeth yn benderfynol o feithrin **perthynas newydd sy'n gweithio i'r DU a'r UE fel ei gilydd**. Perthynas sy'n gweld y DU yn gadael y Farchnad Sengl a'r Undeb Tollau i fanteisio ar gyfleoedd newydd a llunio rôl newydd yn y byd, gan warchod swyddi, cefnogi twf a chynnal cydweithrediad diogelwch.

Mae'r Llywodraeth yn credu bod gofyn i'r berthynas newydd hon fod yn fwy eang o ran cwmipas nag unrhyw un arall rhwng yr UE a thrydedd wlad. Dylai **adlewyrchu hanes dwfn, cysylltiadau agos a phwynt cychwyn unigryw y DU a'r UE**. Rhaid i'r berthynas arwain at fuddion real a pharhaol i'r ddwy ochr, gan gefnogi diogelwch a ffyniant a rennir. Dyma pam mae'r Llywodraeth yn cynnig strwythuro'r berthynas o amgylch partneriaeth economaidd a phartneriaeth ddiogelwch.

Mae'n rhaid i'r DU a'r UE, yn y berthynas hon yn y dyfodol, ddilyn **dull cyfrifol o weithredu er mwyn osgoi ffin galed rhwng Gogledd Iwerddon ac Iwerddon**, mewn ffordd sy'n parchu uniondeb cyfansoddiadol ac economaidd y DU ac ymreolaeth yr UE.

Partneriaeth economaidd

Wrth gynllunio'r berthynas fasnachu newydd hon, dylai'r DU a'r UE ganolbwyntio ar sicrhau **mynediad esmwyth a pharhaus at ffin marchnadoedd nwyddau'r naill a'r llall**.

Er mwyn cyflawni'r nod hwn, mae'r Llywodraeth yn cynnig sefydlu **ardal fasnach rydd ar gyfer nwyddau**.

Byddai'r ardal fasnach rydd hon yn **gwarchod y cadwyni cyflenwi sydd wedi'u hintegreiddio mewn ffordd mor unigryw a phrosesau 'mewn union bryd'** sydd wedi datblygu ledled y DU a'r UE dros y 40 mlynedd diwethaf, yn ogystal â'r swyddi a bywoliaeth y bobl sy'n ddibynnol arnynt. Byddai'n sicrhau bod busnesau ar y ddwy ochr yn gallu parhau i weithredu drwy eu cadwyni cyflenwi a'u cadwyni gwerth presennol. Byddai'n osgoi'r angen am archwiliadau rheoleiddio a thollau ar y ffin ac yn golygu na fyddai'n rhaid i fusnesau gwblhau datganiad tollau drud. Byddai'n golygu mai dim ond unwaith y byddai'n rhaid i gynhyrchion gael eu cymeradwyo a'u hawdurdodi yn y naill farchnad a'r llall, cyn cael eu gwerthu yn y ddwy.

O ganlyniad, byddai'r ardal fasnach rydd ar gyfer nwyddau yn golygu y byddai'r DU a'r UE **yn bodloni eu cyd-ymrwymadau i Ogledd Iwerddon ac Iwerddon** yn ystod y berthynas gyffredinol yn y dyfodol.

Byddai'n osgoi'r angen am ffin galed rhwng Gogledd Iwerddon ac Iwerddon, heb niweidio marchnad fewnol y DU – gan wneud hynny mewn ffordd sy'n llwyr barchu uniondeb Marchnad Sengl, Undeb Tollau a fframwaith seiliedig ar reolau'r UE.

Dylai'r **trefniadau agos hyn ar gyfer nwyddau sefyll ochr yn ochr â rhai newydd ar gyfer gwasanaethau a digidol**, gan roi rhyddid i'r DU fapio ei llwybr ei hun yn y meysydd sydd bwysicaf ar gyfer ei heconomi. Mae'r Llywodraeth am leihau rhwystrau newydd rhag masnachu rhwng y DU a'r UE ac yn gobeithio y bydd y ddwy ochr yn cydweithio i'w lleihau ymhellach dros amser. Ond mae'n cydnabod y bydd rhagor o rwystrau yn atal mynediad y DU at farchnad yr UE nag sydd yna heddiw.

Yn olaf, bydd gofyn i berthynas mor ddofn â hon gael ei chynnal gan ddarpariaethau sy'n rhoi hyder i'r ddwy ochr y bydd **y masnachu y maent yn ei hwyluso yn agored ac yn**

deg. Felly mae'r Llywodraeth yn cynnig ymrwymiadau dwyochrog a fyddai'n sicrhau y gallai busnesau'r DU barhau i gystadlu'n deg ym marchnadoedd yr UE, ac y gallai busnesau'r UE sy'n gweithredu yn y DU wneud yr un peth.

Yn seiliedig ar hyn, mae gan y Llywodraeth weledigaeth am **bartneriaeth economaidd** sy'n cynnwys:

- llyfr rheolau cyffredin ar gyfer **nwyddau, gan gynnwys bwyd-amaeth**, sy'n trafod y rheolau hynny sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau masnach esmwyth ar y ffin. Golyga y byddai'r DU yn gwneud dewis ymlaen llaw i ymrwymo trwy gytuniad i gysondeb parhaus â rheolau perthnasol yr UE, gyda'r holl reolau hynny'n cael eu deddfu gan y Senedd neu'r deddfwrfeydd datganoledig;
- cyfranogiad y DU yn **asiantaethau'r UE sy'n awdurdodi nwyddau** mewn sectorau sy'n cael eu rheoli'n llym – sef yr Asiantaeth Gemegion Ewropeaidd, yr Asiantaeth Diogelwch Awyrennau Ewropeaidd a'r Asiantaeth Feddyginiaethau Ewropeaidd – derbyn rheolau'r asiantaethau hyn a chyfrannu at eu costau, o dan drefniadau newydd sy'n cydnabod na fydd y DU yn Aelod-wladwriaeth;
- cyflwyno **Trefniant Tollau** newydd **wedi'i Hwyluso** yn raddol a fyddai'n dileu'r angen am reolaethau ac archwiliadau tollau rhwng y DU a'r UE fel petaent yn diriogaeth gyfun ar gyfer tollau, a fyddai'n galluogi'r DU i reoli ei thariffau ei hun ar gyfer masnachu â gweddill y byd ac yn sicrhau bod busnesau'n talu'r tariff cywir neu ddim o gwbl. Byddai hyn yn dod i rym yn raddol, wrth i'r ddwy ochr orffen cwblhau'r paratodau angenrheidiol;
- yn ogystal â **dim tariffau ar unrhyw nwyddau**, byddai'r trefniadau hyn yn osgoi unrhyw anghydfod newydd ar y ffin, ac yn gwarchod y cadwyni cyflenwi integredig sydd ar draws y DU a'r UE, gan ddiogelu'r swyddi a bywoliaeth y bobl y maent yn eu cefnogi;
- trefniadau newydd ar gyfer **gwasanaethau a digidol**, yn rhoi rhyddid rheoleiddiol lle mae hynny bwysicaf ar gyfer economi seiliedig ar wasanaethau'r DU. Byddai hyn yn sicrhau bod y DU yn y sefyllfa orau i fanteisio ar ddiwydiannau'r dyfodol yn unol â'i Strategaeth Ddiwydiannol fodern, ac yn cydnabod na fydd y DU a'r UE yn gallu cael yr un mynediad at farchnad y naill a'r llall ag sy'n bosibl ar hyn o bryd;
- trefniadau rheoleiddio ac economaidd newydd ar gyfer **gwasanaethau ariannol**, sy'n gwarchod cydfuddiannau marchnadoedd integredig ac yn gwarchod sefydlogrwydd ariannol, gan barchu hawl y DU a'r UE i reoli mynediad i'w marchnadoedd eu hunain – gan nodi na fydd y trefniadau hyn yn atgynhyrchu cyfundrefnau pasbortio yr UE;
- cydweithio parhaus ar **ynni a thrafnidiaeth** – diogelu'r Farchnad Drydan Sengl yng Ngogledd Iwerddon ac Iwerddon, chwilio am gydweithrediad eang ar ynni, datblygu cytundeb ar gyfer trafndiaeth awyr, ac edrych ar drefniadau dwyochrog ar gyfer cludwyr ffordd a chwmnïau cludiant teithwyr;
- **fframwaith newydd** sy'n parchu sut mae'r DU yn rheoli ei ffiniau ac yn galluogi dinasyddion y DU a'r UE i barhau i deithio i wledydd y naill a'r llall, a busnesau a phobl broffesiynol i ddarparu gwasanaethau – yn unol â'r trefniadau y gallai'r DU fod am eu cynnig i bartneriaid masnachu agos eraill yn y dyfodol; ac
- yn wyneb dyfnder y bartneriaeth hon, darpariaethau sy'n rhwymo ac sy'n gwarantu **amgylchedd masnachu agored a theg** – gan ymrwymo i ddefnyddio llyfr rheolau cyffredin ar gyfer cymorth gwladwriaethol, sefydlu trefniadau cydweithredol rhwng rheoleiddwyr ar gystadleuaeth, a chytuno i gynnal safonau uchel drwy ddarpariaethau dim atchweliad mewn meysydd sy'n cynnwys yr amgylchedd a

rheolau cyflogaeth, yn unol ag ymrwymïadau domestig cadarn y DU.

Ar y cyd, byddai partneriaeth o'r fath yn golygu bod y DU a'r UE **yn bodloni eu hymrwymïadau i Ogledd Iwerddon ac Iwerddon yn ystod y berthynas gyffredinol yn y dyfodol**: gan ddiogelu uniondeb cyfansoddiadol ac economaidd y DU; anrhydeddu ysbryd a llythyren Cytundeb Belfast ('Dydd Gwener y Groglith'); a sicrhau na fydd yn rhaid defnyddio'r testun cyfreithiol gweithredol y bydd y DU yn cytuno arno gyda'r UE o ran yr ateb 'ôl-stop' fel rhan o'r Cytundeb Ymadael.

Er bod yr hyn y mae'r Llywodraeth yn ei gynnig yn uchelgeisiol ym mhob ffordd, mae hefyd yn ymarferol ac yn cyflawni ar ganlyniadau'r refferendwm – **gan barchu sofraniaeth y DU yn llwyr, yn union fel y mae'n parchu ymreolaeth yr UE**. Bydd gan y Senedd yr hawl i benderfynu pa ddeddfwriaeth y bydd yn ei mabwysiadu yn y dyfodol, gan gydnabod y gall fod goblygiadau cymesur ar gyfer gweithrediad y berthynas yn y dyfodol lle'r oedd gan y DU a'r UE lyfr rheolau cyffredin.

Yn gryno, mae'r cynnig hwn yn taro **cydbwysedd teg a phragmatig** ar gyfer y berthynas fasnachu rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol – un a fyddai'n diogelu swyddi a bywoliaeth pobl, ac yn cyflawni canlyniad sydd wir er lles y ddwy ochr.

Partneriaeth diogelwch

Roedd diogelwch Ewrop yn golygu diogelwch y DU, a bydd yn parhau i olygu hynny. Dyna pam mae'r Llywodraeth wedi gwneud **ymrwymiad diamod** i'w gynnal.

Pan oedd y DU yn aelod o'r UE, bu'n **gweithio gyda'r holl Aelod-wladwriaethau i ddatblygu cyfres sylweddol o adnoddau sy'n cefnogi galluoedd gweithredol y DU a'r UE ar y cyd**, ac yn helpu i gadw dinasyddion yn ddiogel. Mae'n bwysig bod y DU a'r UE yn parhau i gydweithredu fel hyn, gan osgoi bylchau o ran galluoedd gweithredol ar ôl i'r DU adael.

Ni fydd y DU yn rhan o bolisiâu cyffredin yr UE ar faterion tramor, amddiffyn, diogelwch, cyfiawnder a chartref mwyach. Yn hytrach, mae'r Llywodraeth yn cynnig partneriaeth diogelwch newydd sy'n cynnal y cydweithrediad clos – oherwydd **wrth i'r byd barhau i newid, mae'r bygythiadau y mae'r DU a'r UE yn eu hwynebu yn newid hefyd**.

Yn seiliedig ar hyn, mae gan y Llywodraeth weledigaeth am **partneriaeth diogelwch** sy'n cynnwys:

- cynnal **galluoedd gweithredol** presennol y DU a'r UE o ran gwarchod diogelwch eu dinasyddion, gan gynnwys y gallu sydd gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith i rannu data a gwybodaeth allweddol a chydweithio ar lefel ymarferol i ymchwilio i droseddau a therfysgaeth ddifrifol – gan gydweithredu yn seiliedig ar adnoddau a mesurau sy'n bodoli'n barod, diwygio deddfwriaeth ac arferion gweithredol fel bo angen ac yn unol â'r hyn y cytunwyd arno i sicrhau cysondeb gweithredol rhwng y DU a'r UE;
- **y DU yn cymryd rhan mewn asiantaethau allweddol**, gan gynnwys Eurojust ac Eurojust – gan ddarparu ffordd effeithiol ac effeithlon o rannu arbenigedd a gwybodaeth, gyda swyddogion gorfodi'r gyfraith ac arbenigwyr cyfreithiol yn gweithio'n agos er mwyn iddynt gydlynu'r gwaith a'r achosion barnwrol yn gyflym – gan dderbyn rheolau'r asiantaethau hynny a chyfrannu at eu costau o dan drefniadau newydd sy'n cydnabod na fydd y DU yn Aelod-wladwriaeth;
- trefniadau ar gyfer **cydlynu materion polisi tramor, amddiffyn a datblygu** – gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â rhai o'r heriau byd-eang mwyaf dybryd lle mae gweithio ochr yn ochr yn fwy effeithiol, a pharhau i ddefnyddio asedau,

arbenigedd, gwybodaeth a galluoedd sylweddol y DU i warchod a hyrwyddo gwerthoedd Ewrop;

- **datblygu gallu ar y cyd**, cefnogi effeithiolrwydd gweithredol a gallu lluoedd arfog y DU a'r UE i ryngweithredu a chryfhau cystadleurwydd y diwydiant amddiffyn yn Ewrop, gan arwain at ddull o fynd i'r afael â bygythiadau nawr ac yn y dyfodol; a
- **chydweithredu'n ehangach**, dilyn dull 'llwybr cyfan' o fynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi mewnfudo anghyfreithlon, cychwyn trafodaeth strategol ar seiberddiogelwch, rhoi fframwaith ar waith i gefnogi'r gwaith ar y cyd ym maes gwrthderfysgaeth, cynnig cymorth ac arbenigedd ar amddiffyn sifil a gweithio gyda'i gilydd ar ddiogelwch iechyd.

Cydweithredu trawsbynciol ac arall

Yn olaf, mae'r Llywodraeth yn credu y dylai'r berthynas yn y dyfodol gynnwys meysydd cydweithredu sydd y tu allan i'r ddwy bartneriaeth graidd, ond sydd yn dal yn bwysig iawn i'r DU a'r UE Mae'r rhain yn cynnwys:

- diogelu **data personol**, gan sicrhau bod y berthynas yn y dyfodol yn hwyluso llif esmwyth a pharhaus data i gefnogi gweithgareddau busnes a chydweithio ym maes diogelwch, ac yn sicrhau'r sicrwydd gorau i fusnesau;
- ymdrechion ar y cyd er mwyn deall a gwella bywydau pobl yn well, a hynny oddi mewn ac oddi allan i ffiniau Ewrop. Sefydlu **cytundebau cydweithredu** ar gyfer gwyddoniaeth ac arloesi, diwylliant ac addysg, datblygu a gweithredu rhyngwladol, ymchwil a datblygu amddiffyn, a'r gofod, er mwyn i'r DU a'r UE barhau i weithio gyda'i gilydd yn y meysydd hyn, gan gynnwys drwy raglenni'r UE, gyda'r DU yn gwneud cyfraniad ariannol priodol; a
- **physgota**, rhoi trefniadau newydd ar waith ar gyfer negodiadau blynyddol ar fynediad i ddyfroedd a rhannu cyfleoedd pysgota yn seiliedig ar ddulliau tecach a mwy gwyddonol – gyda'r DU yn wladwriaeth arfordirol annibynnol.

Brexit ymarferol

Er mwyn cyflawni'r math o berthynas ymarferol sy'n angenrheidiol i sicrhau ffyniant i'r DU a'r UE, ac i sicrhau diogelwch dinasyddion y DU a'r UE, **bydd gofyn i'r ddwy ochr fod yn hyderus y gallant ymddiried yn yr ymrwymadau a wneir i'r naill a'r llall a dibynnu arnynt.**

Felly, er mwyn ategu'r berthynas yn y dyfodol, mae'r Llywodraeth yn cynnig **trefniadau sefydliadol** ar y cyd, sy'n sicrhau atebolrwydd democrataidd priodol, sy'n caniatáu i'r berthynas ddatblygu dros amser, sy'n golygu bod modd rheoli cydweithrediad yn effeithiol ac sy'n galluogi'r DU a'r UE i roi sylw i faterion fel y maent yn codi.

Byddai'r trefniadau hyn, a allai fod ar ffurf Cytundeb Cysylltiol, yn **sicrhau bod y setliad newydd yn gynaliadwy** – yn gweithio i ddinasyddion y DU a'r UE nawr ac yn y dyfodol.

Byddent yn darparu ar gyfer **deialog reolaidd rhwng arweinwyr a gweinidogion y DU a'r UE**, yn gydnaws â dyfnder y berthynas yn y dyfodol, a chan gydnabod arwyddocâd sefyllfa'r naill a'r llall yn fyd-eang.

Byddent yn **cefnogi gweithrediad esmwyth y berthynas**, gan ategu'r gwahanol fathau o gydweithredu rheoleiddiol y cytunodd y DU a'r UE arno. Os yw'r DU wedi gwneud ymrwymiad i'r UE, gan gynnwys yn y meysydd hynny lle mae'r Llywodraeth yn cynnig y byddai'r DU yn parhau i fod yn rhan o lyfr rheolau cyffredin, byddai prosesau clir ar gyfer diweddarau'r rheolau perthnasol, a oedd yn parchu sofraniaeth y DU ac yn darparu ar gyfer

craffu Seneddol.

Byddai'r trefniadau'n cynnwys **dulliau cadarn a phriodol o ddatrys anghydfodau**, gan gynnwys drwy Gydbwyllgor ac mewn sawl maes drwy gyflafareddu annibynnol sy'n rhwymo - gan ddarparu, drwy weithdrefn gyfeirio ar y cyd, ar gyfer rôl Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd fel y sawl sy'n dehongli rheolau'r UE, ond yn seiliedig ar yr egwyddor nad oes modd i lys un parti ddatrys anghydfodau rhwng y ddau.

A byddent yn sicrhau bod y DU a'r UE **yn dehongli rheolau'n gyson** – gyda llysoedd y DU yn gorfodi hawliau yn y DU a llysoedd yr UE yn yr UE, ac ymrwymiad y byddai llysoedd y DU yn talu sylw dyledus i gyfraith achosion yr UE yn y meysydd hynny lle mae'r DU yn parhau i ddefnyddio llyfr rheolau cyffredin.

Yn olaf, byddai'r trefniadau hyn yn **galluogi hyblygrwydd**, gan sicrhau y byddai'r DU a'r UE yn gallu adolygu'r berthynas, ymateb ac addasu i heriau ac amgylchiadau sy'n newid dros amser.

Symud ymlaen

Mae'r Llywodraeth yn credu mai'r **cynnig hwn ar gyfer Brexit sy'n egwyddorol ac yn ymarferol yw'r un iawn** – ar gyfer y DU a'r UE.

Byddai'n parchu canlyniad y refferendwm, ac yn cyflawni ar ei addewid, gan sicrhau bod y DU yn gadael yr UE heb adael Ewrop – **a tharo cydbwysedd newydd o ran hawliau a rhwymedigaethau** sy'n deg i'r ddwy ochr.

Yn unol ag ysbryd Erthygl 50, ac ymrwymiad y ddwy ochr i'r egwyddor 'nad oes dim wedi'i gytuno nes bydd popeth wedi'i gytuno', **mae cyswilt anorfod rhwng y Cytundeb Ymadael a'r fframwaith ar gyfer y berthynas yn y dyfodol** – felly mae'n rhaid cytuno ar y ddau ar yr un pryd.

Bydd gofyn i'r ddwy ochr ganolbwyntio ar **drosi 'Fframwaith y Dyfodol' yn destun cyfreithiol cyn gynted â phosibl**, cyn cadarnhau'r trefniadau sy'n rhwymo er mwyn iddo ddod i rym – gyda'r nod o sicrhau trawsnewid esmwyth a threfnus o'r cyfnod rhoi ar waith i'r berthynas yn y dyfodol.

Ar sail y cynnig hwn, bydd y Llywodraeth nawr yn **ymddiried y dasg o ymgysylltu â'r UE yn ddi-oed i ddim negodi'r DU**, gan weithio i gyrraedd cytundeb cadarn ar y Fframwaith i'r Dyfodol ochr yn ochr â'r Cytundeb Ymadael yn nes ymlaen eleni.